# Heddwch

Gwanwyn 1998

cylchgrawn CND Cymru

AM DDIM (neu gyfraniad)

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear Cymru


# Penblwydd hapus yn 40 oed i CND!

Nod yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yw perswadio pobl mai peth hollol ddrwg yw arfau atomig a rhai eraill tebyg, ac y dylid eu diddymu. Fe ddylai un genedl sydd â'r gallu i gynhyrchu'r arfau hyn osod esiampl drwy fwriadol herio'r ofn hysterig sydd y tu ôl i'r ras arfau. Datganiad Polisi CND (lluniwyd gan JB Priestley) 1958

40 mlynedd o rannu taflenni a deisebu, ffeiriau sborion, gwrthdystiadau eistedd i lawr a ffug-farw, 40 mlynedd o lanw a thrai gwleidyddol. Ni fuasai Bertrand Russell, Peggy Duff, Michael Foot, Sheila Jones, y Canon John Collins, James Cameron, Arthur Goss na neb o blith y rhai a ddaeth ynghyd ar frys ym mis Ionawr 1958 i drafod creu sefydliad cenedlaethol eang ei seiliauer diarfogi niwclear wedi dychmygu y byddai'n cymryd mwy na 40 mlynedd arnynt i gyrraedd eu nod. Dechreuodd llawer ohonom ymgyrchu yn blant, ac erbyn hyn rydyn ni'n rhannu'r ymgyrch â'n plant ninnau. Nid arwydd o fethiant yw hyn – mae'r dasg yn anferth, a dychrynllyd anferth yw cyfrinachgarwch a dycnwch y peiriant gwleidyddol, diwydiannol a milwrol, sydd wedi cyflyru trwch y cyhoedd ar hyd y canrifoedd i hybu ofn ac i dderbyn trais a bygythiadau fel ateb gwleidyddol.

Trwy ddefnyddio pob dull di-drais dichonadwy mae CND wedi galluogi unigolion i frwydro a newid dirnadaeth y cyhoedd a'r gwleidyddion o arfau niwclear a'r dechnoleg niwclear, gan rybuddio pobl rhag y peryglon erchyll a'r anfoesol deb sy'n elfen gynhenid o bolisïau niwclear. Pe na buasai CND wedi ymgyrchu mor ddibaid, fe fyddai stordai arfau niwclear erbyn hyn yn fwy o faint, yn fwy cyfreithiol dderbyniol, a byddai effaith y fath arfau'n dal yn gyfrinach.

Mae ffrindiau da, annwyl yn CND wedi dod a wedi mynd. Mae'r cyfan wedi golygu digonedd o waith caled, ond rydyn ni wedi cael hwyl aruthrol ar adegau. Mae hi wedi golygu treulio 40 mlynedd yn rhedeg ras rwystrau gyfnewid, wedi ei chynllunio'n daclus ond ras wallgof serch hynny.

Os bydd digon o bobl yn poeni am y dyfodol, mae pob peth yn bosibl.

Penblwydd Hapus, CND Prydain. Gwisgwch yr hen gotiau ddyffl 'na, bois, a dowch â'ch ffrindiau a'r teulu oll. Gadewch inni ddathlu!

Jill Stallard




Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Yn araf ond yn sicr – cyfaddef y gwir am Trident

Cyfaddefodd yr Arglwydd Gilbert, Llefarydd Amddiffyn y Llywodraeth, yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 9fed Rhagfyr, mai nid £200 miliwn, swm y sonid amdano'n gyson gan y Llywodraeth flaenorol a'r un bresennol fel ei gilydd, yw gwir gyfanswm costau cynnal Trident ac arfau niwclear eraill Prydain. £410 miliwn oedd yn cael eu gwario ar gynllunio, cynhyrchu, storio, cludo, cynnal a chadw a gwaredu, meddai, tra bod £530 miliwn (sy'n cynnwys yr amcangyfrif o £200 miliwn a roddid gan y Llywodraeth) yn mynd ar ddarparu, gweithredu a gwaredu Polaris a Trident. Pan ofynwyd iddo paham y rhoddid y swm blaenorol o £200 miliwn droeon i'r Senedd, atebodd: "Mae gweinidogion yn ceisio bob amser rhoi ateb yn yr un termau ag y geiriwyd y cwestiwn ynddynt." Aeth yr Arglwy ddymlaen i gyfaddef "ein bod ni'n archwilio'r seiliau y gosodid amcangyfrifon cost arnynt, yn sgil profiad gweithredu a fel rhan o'r Adolygiad Amddiffyn Strategol". Gadewch inni obeithio y gall ASau ofyn cwestiynau a fydd yn egluro seiliau'r amcangyfrifon hyn a'r holl gostau i'r trethdalwyr y mae eu harian yn cael eu hafradloni.

Ar ben hyn datgelodd y Sunday Times yn gynharach eleni fod Brown & Root, y grŵp peirianegol o'r UDau, yn brwydro er rhwystro costau rhag codi'n aruthrol yn iard longau Devonport lle y bydd Trident yn cael ei aildaclu. Mae anawsterau cynllunio eisoes wedi ychwanegu 40% at amcangyfrif gwreiddiol y gost, a chred rhai arbenigwyr yw y gallai'r bil ddyblu ymron gan gyrraedd £450 miliwn.

Tair llong danfor Trident sy'n weithredol bellach.



# Teyrngarwch uwch i'r ddynol ryw – gwrthwynebwr cydwybodol yn Abertawe, 1940

Yr oedd George Cox, gwrthwynebwr cydwybodol, yn byw yn Llanelli ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Cyhoeddwn isod ddetholiadau o'i Ddatganiad i Dribiwnlys y Gwasanaeth Milwrol y bu'n rhaid iddo ymddangos ynddo yn Abertawe ar 28ain Mawrth 1940. Derbyniodd George esgudodiad diamod, a pharhaodd yn ei swydd flaenorol fel swyddog Tollau. Cynhwysai'r Tribiwnlys y Barnwr Frank Davies, Syr L. Tristan Davies, J.H. Williams YH a dau arall, a oedd yn ôl pob tebyg yn gynrychiolwyr undebol.

"Ni fu'n hawdd imi weithredu yn wahanol i'r rhan fwyaf o'm cymheiriaid. Rwyf innau, fel hwythau, yn coleddu llawer o'n cefn gwlad a llawer o sefydliadau'r deyrnas; ond mae'r hyn sydd ynof a wnâ imi ofidio am y rhain yn peri imi gasáu rhyfel yn ogystal.

"Dinistr yn anad dim yw rhyfel. Y nod wrth fynd i ryfel yw gorfodi ewyllys unbobl ar bobl arall. Mewn rhyfel bydd milwyr yn lladd ac yn cael eu lladd, a chânt eu harteithio, eu hanafu a'u handwyo i'r fath raddau nes bod llawer ohonynt yn methu â byw bywyd cyflawn am weddill eu hoes. Mae'r dinasyddion sifil, er yn ddiniwed, yn dioddef gofid a phryder, colled eu perthnasau a'u cyfeillion, ofn perygl corfforol a'r dygn ofn y dinistrir yr hyn a drysorir fwyaf ganddynt. Yn y rhyfel diwethaf yr oedd nifer y rhai a laddwyd ac a anafwyd yn hafal i gyfanswm poblogaeth Ynysoedd Prydain. Dyna'r pris a dalwyd mewn un rhyfel mewn bywydau dynol. A ni ddaw terfyn ar y dioddefaint pan roddir y gorau i'r ymladd. Anhrefn economaidd, diweithdra, newyn, ac mewn rhai lleoedd salwch a phlâu, a syrthia i ran y ddynol ryw. A'r ewyllys i ymgodymu'n gall â gorchwyl ailadeiladu ni welir, canys mae'r gorchfygwyr yn feddw ddig gan gasineb a'r trechedig rai gan ddyhead dialedd.

"Golyga rhyfel ddinistrio personau drwy ladd yn yr amgylchiadau gwaethaf oll. Dyna sail fy ngwrthwynebiad i ryfel. Gwrthyd fy nghydwybod yr un cyfrifoldeb am y dinistr hwnnw... at hynny, golyga rhyfel ddioddefaint diangen i bobl ar y ddwy ochr nad oes ganddynt unrhyw achos cweryla â'i gilydd, na ddymunant ond gweld diwedd y rhyfel fel y gallant fyw eu bywydau normal mewn heddwch. Ni all yr un lles ddod o ryfel, pa ddiben bynnag yr ymladder drosto. Hyd yn oed os bydd y diben hwnnw'n un da, bydd y moddau a ddefnyddir i'w gyrraedd yn llunio'r diben a gyrhaeddir yn y pen draw. O ryfel ni ddaw ond anniogelwch, drwgdybiaeth, siomedigaeth a dyhead dialedd, yr hyn a arweinia a tanghydfod newydd.

"Er ni allaf ar gydwybod gymryd rhan mewn rhyfel, nid yw fy safbwynt yn hollol negyddol. Rwy'n awyddus iawn i fywydau dynion ddod yn fwy cyflawn ac yn hapusach. Rwy'n barod i gynorthwyo â'm holl nerth yn y frwydr yn erbyn anwybodaeth, tlodi a salwch. Mi gredaf yn rhesymolrwydd cynhenid dynion, ac mi wn y bydd i reswm a chyfiawnder, oherwydd eu rhinwedd, orchfygu casineb, cenfigen a meddiangarwch yn y pen draw.

"Gobeithio y gwerthfawroga'r Tribiwnlys fy niffuantrwydd wrth imi osod fy nheyrngarwch i'm gwlad yn ail i'r hyn yr edrychaf arno fel fy nheyrngarch uwch i'r ddynol ryw oll."

Diolch o galon i George Cox, sydd heddiw'n Is-Lywydd Ymgyrch Ddiarfogi'r Byd,ac i Conscience. Gellir cysylltu ag Ymgyrch Treth Heddwch, sy'n croesawu Datganiadau tebyg i'w cyhoeddi yn y cylchlythyr ardderchog, Conscience, yn 601 Holloway Road, Llundain N19 4DJ (0171) 561 1061.



# Dim fformiwla hud: Gorchymyn Ewratom 96/29

Mewn pennod ddiweddar o Battlestar Galactica ar y teledu, cafodd y diwydiant niwclear damaid o lwc: ymwelodd dynion gofod o'r dyfodol â gwyddonydd niwclear i ddweud wrtho sut i ddatrys problem fwyaf ynni niwclear – fformiwla hud i ddirymu gwastraff ymbelydrol. Gwyn eu byd!

### Gwerth $10-15 biliwn o offer niwclear datgymaledig

O ddiffyg y fath ymyriad goruwchnaturiol, mae'r diwydiant wedi taro ar syniad mwy dinod, sef gollwng ei wastraff yn yr amgylchedd. A chan ein bod ni'n byw mewn byd a reolir fwyfwy bob dydd gan y farchnad, fe fyddan nhw'n troi hyn yn elw ym mhob ffordd bosibl. Mae'r OECD (Sefydliad er Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) wedi amcangyfrif y bydd tua 30 miliwn o dunelli o fetel sgrap, gwerth 10 i 15 miliwn o ddoleri, yn cael eu creu yn ystod yr hannercanrif nesaf o ganlyniad i ddatgymalu offer niwclear. Os bydd y metel (heb sôn am y concrid a'r deunyddiau eraill) yn rhy ymbelydrol i gael ei werthu, bydd yn rhaid ei waredu rywffordd arall, a bydd hyn yn costio arian. Y symbyliad ariannol enfawr hwn sydd y tu ôl i Orchymyn Cyngor Ewropeaidd 96/29/Ewratom.

### "....heb fod yn destun pryder"

Amcan y Gorchymyn yw cysoni safonau amddiffyn rhag ymbelydredd, ond mae'n gadael i wahanol aelodau'r UE osod trothwyau ymbelydredd fel y gellir rhyddhau deunyddiau llygredig o safleoedd niwclear os bydd eu cynnwys ymbelydrol yn llai na'r lefelau hyn. Byd y deunyddiau hyn ar gael i'w defnyddio at unrhyw ddiben, oherwydd fe dybir bod eu cynnwys ymbelydrol "heb fod yn destun pryder".

### Coctel hedegog o ronynnau'n chwythu yn y gwynt

Bydd y sorod o'r mwyndoddwyr lle y caiff y metel llygredig ei gymysgu a'i deneuo hwythau "heb fod yn destun pryder". Bydd y sorod hyn yn ymbelydrol, ond defnyddir tua 5% o sorod yn rheolaidd wrth balmantu'r ffyrdd, felly wrth i gerbydau dreulio'r tarmac fe ychwanegir perygl microsgopaidd arall i'r coctel hedegog o ocsidau, monocsidau, plwm a gronynnau sydd eisoes yn troelli uwchben ein priffyrdd. Defnyddir 30% arall o sorod o fwyndoddwyr mewn gwrteithiau a deunyddiau gorchuddio daear – ffordd hynod effeithiol o wasgaru'r dogn wrth i'r ymbelydredd ddod i ben ei daith mewn cnydau bwyd ac yn chwythu yn y gwynt.

### Ni all llywodraethau wadu bod yna broblem

Honnir yn swyddogol bod dosbarthu ymbelydredd yn ddiogel cyhyd â bod y dogn yn ddigon isel, er bod y rheolyddion yn derbyn, er enghraifft, y bydd mwyndoddwr sy'n cynhyrchu 50,000 o dunelli o fetel llygredig y flwyddyn yn achosi cymaint ag un canser angheuol y flwyddyn i bob miliwn o bobl. Ond mae casgliad cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu bod y rheolyddion wedi methu â gwerthfawrogi gwir effeithiau meddygol cael eich dinoethi yn barhaol i sylweddau ymbelydrol o waith dyn, yn enwedig os cânt eu hanadlu neu'u llyncu. Mae'r ddadl bod "dogn isel yn hafal i ddogn diogel" yn dechrau swnio yr un mor ddisail â'r syniad bod angen yfed peintiau o fasili'r clwyf du cyn bod mewn perygl o gael eich heintio. Dengys y dystiolaeth yn ogystal nad canser yw unig ganlyniad ymbelydredd; arsyllwyd amrediad eang o namau genetig, ac nid yw pob un ohonynt yn debyg o gael ei fynegi o fewn un genhedlaeth. Honna biolegwyr ymbelydredd blaenllaw fod atomau unigol o rai o'r isotopau synthetig yn "parhaol lygru cronfa genau'r ddynol ryw". Mae eu hanghydfodau â'r Bwrdd Amddiffyn Radiolegol Cenedlaethol wedi derbyn cryn gyhoeddusrwydd. Mae hyn, ar ben ymchwiliad y Senedd Ewropeaidd i'r beirniadaethau o ffactorau perygl ymbelydredd swyddogol, yn ei gwneud hi'n anodd i lywodraethau wadu bod yna broblem.

Ond y cwestiwn yw faint o ymbelydredd a gaiff ei daflu'n anadferadwy i'r amgylchedd cyn i'r ddadl wyddonol gael ei datrys.

### Yr ymgyrch

Mae'r Ymgyrch Ymbelydredd Isel (LLRC) yn trafod y Gorchymyn ag Adran Amddiffyn rhag Ymbelydredd y Comisiwn, ac yn cyd-drefnu gwrthwynebiad i'r Gorchymyn gan ymgynghori ag ASau, ASEau, gweithredwyr a chynghorau lleol, llunio cwestiynau ar gyfer llywodraethau cenedlaethol a'r Comisiwn, cynghori a chynorthwyo ymgyrchoedd mewn gwledydd eraill a chasglu enwau i ddeiseb i'r Cyngor Ewropeaidd. Mae profiad ar y strydoedd yn dangos mai ymgyrch hawdd i'w chyflwyno yw hon, a'i bod yn denu cymaint ag un person i lofnodi bob 40 eiliad hyd yn oed mewn trefi bychain.

*Richard Bramhall.*

**GWEITHREDU**

*• Mae Cynnig Diwrnod Cynnar 677 yn gwrthwynebu ailgylchu metel sgrapllygredig. Hyd yn hyn mae 32 o ASau wedi ei arwyddo. Beth am eich AS chi? Amfanylion am hyn ac am yr ymgyrch gweler y daflen amgaeë dig a/ neucysylltwch ag LLRC, Ammondale, Ffordd y Ffynonellau, Llandrindod LD1 5EY(01597 824771) e-bost: bramhall@llrc.org Cynhaliwyd Gweithdy Uned STOA (Asesiad o Opsiynau mewn Gwyddoniaeth aThechnoleg) dan y teitl " Arolwg a gwerthusiad o feirniadaeth o safonaudiogelwch sylfaenol ar gyfer amddiffyn gweithwyr a'r cyhoedd rhag ymbelydredd ïonig" ar 5ed Chwefror 1998 yn Senedd Ewrop ym Mrwsel.*




*Rhai aelodau o CND Senedd Ewrop a ddathlodd benblwydd CND yn 40 oed yn ddiweddar. Bu'r grŵp hwn yn rheng flaen y gwrthwynebiad Ewropeaidd i ryfeloedd y Malvinas/ "Falklands" a'r Gwlff, a lleisiodd ei wrthwynebiad yn glir i'r bygythiadau rhyfel diweddar yn erbyn Irac. Rhes Flaen: Stan Newens, Tom Megahy, Alex Smith, Hugh Kerr, David Morris, Eryl McNally, a Barry Seal. Rhes Gefn: Alec Falcone, Joe Wilson, Peter Crampton, Allan Macartney a Mike Hindley. Mae Maj Britt Theorin yn ysbrydol bresennol! spirit!*



### Fforwm dinesig Llandrindod ar ddileu arfau niwclear

Trefnodd CND Llandrindod fforwm yn ddiweddar i astudio materion yn ymwneud â'r posibiliadau o ddiarfogi niwclear rhyngwladol. Anerchwyd y cyfarfod, a gadeiriwyd gan yr AS lleol Richard Livsey, gan George Farebrother o Brosiect Llys y Byd, a Rebecca Johnson, Cyfarwyddwraig yr "Acronym Institute".

Detholwyd 24 aelod gwadd y Fforwm fel eu bod yn cynrychioli trawstoriad eang o'r gymuned. Ar ôl clywed tystiolaeth yr "arbenigwyr", yr oedd y grŵp ar y cyfan yn cefnogi'r syniad o ddiarfogi niwclear byd-eang gan gytuno y byddai hyn yn fwy dymunol na'r sefyllfa bresennol. Roeddent yn ansicr, serch hynny, a oedd diarfogi niwclear yn beth ymarferol.

Cydnabu Richard Livsey, er na chaiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban ddeddfu ar faterion am ddiffyn, y byddant yn gallu mabwysiadu pender fyniadau di-niwclear a fydd yn gosod rheidrwydd moesol ar San Steffan.

**GWEITHREDU**

• *Mae CND Llandrindod yn ystyried yr achlysur hwn yn llwyddiant mawr. Os ydych chi neu'ch grŵp am drefnu Fforwm Dinesig, byddwn ni'n falch o helpu. Galwch Sarah Isaacs (01591) 620 561.*

### Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Tâf yn cefnogi CND Cymru ar berygl hediadauniwclear

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Amgylcheddol Rhondda Cynon Tâf wedi ysgrifennu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ategu pryder CND Cymru ynghylch hediadau dros Dde Cymru gan awyrennau sy'n cludo arfau niwclear rhwng Prydain ac UDA. Mae'r Cyngor yn aelod o Fforwm yr Ardaloedd Di-Niwclear a Dilead 2000.

### Hediadau milwrol isel dros Gymru – daliwch i gwyno!

Mae marwolaeth ugain o bobl yn nhrychineb y car codi Eidalaidd, a achoswyd gan awyren filwrol yn hedfan 300 troedfedd uwchben y ddaear, wedi cryfhau'r galwadau am waharddiad llwyr ar hediadau milwrol isel. Caniateir hedfanmilwrol mor isel â 100 troedfedd dros rannau helaeth o Ganolbarth Cymru. Mae'r arfer hwn nid yn unig yn erchyll ac yn fygwth i iechyd pobl ar y ddaear, ond yn beryglus dros ben hefyd. Ni bu ond y dim i wrthdrawiad awyr ddigwydd ger Aberhonddu y llynedd, ar ôl cyfres hir o drawiadau a damweiniau eraill i awyrennau milwrol yn hedfan yn isel dros Gymru a gweddill ynys Prydain. Ni chaiff achwynwyr ond esgusodion diffygiol ac ystrydebau gan yr adran gwynion arbennig a sefydlwyd gan yr MoD yn Whitehall. Mae'r MoD yn amddiffyn yr hediadau hyn o hyd gan eu bod yn "hanfodol bwysig" i hyfforddiant y Llu Awyr. Hyfforddir peilotiaid o wledydd eraill megis Indonesia yn ogystal i hedfan dros Gymru fel rhan o becyn sy'n gwerthu awyrennau i'r gwledydd hyn. Mae ymchwil sy'n profi bod y fath hediadau isel yn niweidio clyw plant ac yn achosi niwed seicolegol wedi cyfrannu'n sylweddol at gyfyngu ar hyfforddiant tebyg dros rannau eraill o Ewrop.

Yn ôl Bernard Moffat o'r Cynghrair Celtaidd, "Rhybudd yw'r marwolaethau yn yr Eidal. A fyddan nhw'n gorfodi'r Gweinidog Amddiffyn George Robertson i gymryd sylw, ynteu a fydd yn rhaid i ugain o ddinasyddion Cymreig neu Albanaidd farw cyn iddo weithredu?"

**GWEITHREDU**

• *Os ydych chi'n cael eich styrbio, eich brawychu neu'ch digio gan awyrennau milwrol yn hedfan yn isel, mae'n bwysig eich bod chi'n cwyno i'r MoD (0171) 218 6020. Gellwch ysgrifennu i: Ministry of Defence, Secretariat (Air Staff) 2b, Room 8249, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB; neu i'r Ysgrifennydd Gwladol George Robertson (yr un cyfeiriad), neu i'ch AS lleol. Cofnodir pob cwyn gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae'n rhaid iddi ateb mewn ysgrifen. Os na ddaliwn i gwyno, byddan nhw'n credu ein bod ni'n hapus bod y fath hyfforddiant yn mynd ymlaen!*

### Cymraes yn ennill gwobr Ghandi



Dyfarnwyd Gwobr Heddwch Sefydliad Ghandi eleni i Mrs Eirwen Harbottle, a weithiodd ochr yn ochr â'i diweddar ŵr y Brigadydd Michael Harbottle i sefydlu a chyfarwyddo mudiad Cadfridogion Dros Heddwch a'r Ganolfan Heddychu Ryngwladol. Cyflwynwyd y wobr iddi gan Richard Attenborough ym mis Ionawr mewn seremoni ar ddiwedd gwasanaeth aml-ffydd a gynhaliwyd ar hanner canmlwyddiant bradlofruddiad Mahatma Ghandi.

### Pentywyn i gael llonydd

Bydd y pentref bach ar ymyl traeth pum milltir Pentywyn yn cael llonydd i raddol adennill ei le fel cyrchfan gwyliau a safle ceisiadau i guro recordiau cyflymder ar dir. Mae Asiantaeth Gwerthuso ac Ymchwilio Amddiffyn yr MoD wedi datgan y bydd y ganolfan arbrofi arfau'n cau ym mis Hydref, gan ddiswyddo 130 o weithwyr. Bu Pentywyn yn un o dri maes tanio tebyg ym Mhrydain. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r arbrofion gael eu trosglwyddo i Eskmeals yng Nghymbria. Mae'r trydydd safle yn Shoeburyness, Essex. Saif Canolfan Pentywyn, a sefydlwyd ym 1940, ar stribed o dir mwy na 5 milltir o hyd ar lan ogleddol Bae Caerfyrddin. Mae ganddi yr unig "lôn arbrofi statig" ym Mhrydain. Ni fydd yn cau yn llwyr nes bod pob contract wedi'i gwblhau.

Mae prif ganolfannau'r MoD yn Nhrecŵn ac Aberdaugleddau (Sir Benfro) wedi cau bellach. Gwersylloedd mwyaf yr MoD yng Nghymru erbyn hyn yw Breudeth, Aberhonddu a Phont Senni. Mae safle arbrofi taflegrau preifateiddiedig o hyd yn Aberporth (Ceredigion).

Mae'n amlwg y bydd angen arweiniad gan Frwsel a Llundain i sicrhau na fydd De-Orllewin Cymru ar ei cholled wrth i Ewrop a Phrydain ymgymeryd â newidiadau economaidd a gwleidyddol yn y dyfodol agos. Bydd CND Cymru'n pwyso am archwiliad amgylcheddol ym Mhentywyn i sicrhau na fydd difwyniant yn fygwth i iechyd a'r amgylchfyd.



### Tsiernobyl: cyfyngiadau 1998 ar ddefaid y Gogledd

Mae cyfyngiadau ar symud a lladd defaid mewn grym o hyd mewn ardal o ryw 530 km yng Ngogledd Cymru. Effeithia hyn ar 180,000 o ddefaid ar ryw 340 o ffermydd. Nid oes monitoriaeth ond ar gyfer y radioniwclid synthetig Cesiwm 137 sydd â hanner-oes o 30 mlynedd, y gwyddys ei fod yn cronni mewn esgyrn, cyhyrau ac organau cenhedlu ac eraill bodau dynol. Rhaid derbyn bod y difwyniant yn cael ei deneuo o ganlyniad i arferion ffermio, gan fod y radioniwclidau'n mynd ynghlwm wrth sylwedd byw nad yw'n cael ei fonitorio (llystyfiant, bodau dynol ac anifeiliaid gwyllt) ac yn cael eu golchi i lawr i'r fawn a'r dŵr daear. Sefydlwyd y system reoli, a adwaenir fel y "cynllun marcio a rhyddhau", gan y Swyddfa Gymreig i leddfu ymyrraeth a garferion ffermio. Gellir symud defaid o ardaloedd cyfyngedig dros dro heb eu marcio. Mae pob dafad sy'n gadael yr ardaloedd hyn yn barhaol yn cael ei monitorio fel unigolyn, ac ni chaiff yr un anifail a chanddo lefel ymbelydredd ormodol ddod i mewn i'r gadwyn fwyd. Telir £1.30 i ffermwyr am bob dafad a fonitorir. Yn rhyfeddol iawn, ceir bod gan ddefaid a fonitorir ar ôl pori am gyfnod y tu allan i ardal gyfyngedig lefel Cesiwm 137 ddigon isel iddynt gael eu lladd a'u bwyta. On'd yw gwyddoniaeth yn wych?!

*Parhad ar y dudalen nesaf*

## Philip Seed 1930 – 1997

Tristwch calon i lawer ym mudiad heddwch Cymru oedd clywed am farwolaeth Philip Seed ym mis Tachwedd. Yn Grynwr ac yn wrthwynebwr cydwybodol, dysgodd weithwyr cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd cyn ymgysylltu â phrosiect rheolaeth y gweithwyr "Ffatrïoedd dros Heddwch" yn Onllwyn. Bu ymhlith symbylwyr y grŵp gweithredu uniongyrchol "Pwyllgor 100 Cymru" yn y 60au cynnar. Symudodd wedyn i Loegr i barhau ei waith dros heddwch, ac yno i'r Alban. Bu'n weithredol yng Nghymdeithas y Gweithwyr Cymdeithasol Prydeinig ac yn aelod o'r Blaid Lafur nes iddo ymddiswyddo o ganlyniad i'w pholisi ar ddiarfogi. Mae'r Mudiad Heddwch wedi colli cyfaill da.

### Llongyfarchiadau i Sir Benfro ddi-niwclear!

Mae Cyngor Sir Benfro wedi cytuno'n eofn o'r diwedd i ymuno â Fforwm yr Ardaloedd Di-Niwclear. Daw hyn yn sgil llawer o waith caled a cymgyrchu gan weithredwyr gwrth-niwclear, ecolegwyr a chynghorwyr ymroddedig. Mae pobl y Sir wedi doeth ethol Cyngor a fydd mewn gwell sefyllfa i'w hamddiffyn nhw a'u plant a'u hamgylchedd rhag peryglon y dechnoleg niwclear a'i gwastraff. Erbyn hyn mae 19 o 22 awdurdod unedol Cymru wedi ymgysylltu â'r Fforwm.

### Dounreay, Yr Alban " Y sawl a gloddio bwll, a syrth ynddo" – Llyfr y Pregethwr, X,VIII

Mae awdurdodau safle niwclear Dounreay yn gorfod wynebu canlyniadau hanes camhysbysrwydd, hunanfoddhad ac aflerwch. Yr oedd mwy na 1,000 o dunelli o wastraff niwclear, gan gynnwys wraniwm a phlwtoniwm tra chyfoethog a choctel o gemegion gwenwynig wedi cael eu taflu i dwll 220 troedfedd ar y clogwyni er 1959. Ffrwydrodd y cymysgedd hwn ym mis Mai 1977 ond ni hysbyswyd y trigolion lleol am y perygl. Mae'r siafft yn gollwng ei gynnwys i'r mor, ac mae cerrig mandyllog ysig y clogwyni'n erydu. Datblygodd traddodiad o gyfrinachgarwch ar y safle hwn, a ni ddatgelwyd erioed y gwirionedd am y twll a ddaliai ddigon o blwtoniwm ac wraniwm i wneud bom sylweddol. Ym 1988 ni hysbyswyd hyd yn oed arolygwyr y Llywodraeth, a oedd yn astudio clystyrau o lewcemia mewn plant yn yr ardal, am fodolaeth y siafft a'r ffrwydrad. Yn ddiweddar penderfynodd yr Awdurdod Ynni Atomig (AYA) gyfaddef y cwbl. Mae rheolwyr y safle wedi cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Adran Fasnach a Diwydiant y dylid casglu'r gwastraff, ei becynnu a'i storio ar yr wyneb. Disgwylir y bydd y dasg ansicr, hynod beryglus hon yn costio o leiaf £500 miliwn. Ond mae arbenigwyr y diwydiant yn honni y gallai'r bil gyrraedd £1 biliwn.

Bydd pobl yr ardal, ecolegwyr a rheolyddion y Llywodraeth yn cadw llygad barcud ar y cliriad.

Mae'r safle wedi llygru ardal eang yn barhaol eisoes o gwmpas Dounreay. Ar ddiwedd 1997 gosododd Swyddfa'r Alban waharddiad ar bysgota o fewn cwmpas 2 km i bibell arllwys Dounreay, ar ôl i arolwg gan yr AYA ddangos bod dyddodion ar wely'r môr wedi'u hymbelydru gan fanweddillion tanwydd niwclear na wyddid amdanynt o'r blaen.

Ar ddiwedd mis Tachwedd daethpwyd o hyd i ddeunydd mwy ymbelydrol byth wrth fonitorio traeth gwyliau poblogaidd Sandside ger Dounreay. Mae galwadau gan bobl leol am gau'r traeth wedi cael eu gwrthod.

Er gwaethaf yr holl anawsterau yn Dounreay, cyrhaeddodd llwyth 59 kg o blwtoniwm borthladd Scrabster gerllaw ar fferi cerbydau o'r Almaen dros y Nadolig. Mae gan Dounreay gytundeb i drawsnewid y plwtoniwm yn sylwedd a all gael ei droi'n MOX (tanwydd plwtoniwm – ocsid wraniwm cymysg) cyn cael ei gludo yn ôl i'r Almaen.

Mae Wraniwm Tra Chyfoethog yn cael ei gludo i Dounreay o Awstralia hefyd. Mae awdurdodau lleol yn taer wrthwynebu defnydd Dounreay fel dadlwythfa i wastraff niwclear pobl eraill, ac mae Llew Smith AS (Blaenau Gwent) yn dal i ofyn cwestiynau am hyn yn San Steffan. Mae David Morris ASE (De Cymru – Gorllewin) yntau wedi gweithio'n galed i ddod â'r mater i sylw Senedd Ewrop.

### Protestiadau gwrth-niwclear yn parhau yn yr Almaen

Cafodd mintai o loriau a gludai wastraff niwclear ar gam cyntaf ei daith i Sellafield ei rhwystro gan 200 o weithredwyr yn ddiweddar ger Geesthacht, un o atomfeydd mwyaf yr Almaen. Cafodd wyth o'r rhai a arestiwyd eu dirwyo a'u gosod ar brawf. Dadleuodd tystion yn y llys mai peth drwg oedd anfon y gwiail tanwydd at Sellafield, oherwydd Môr Iwerddon yw'r hyd dŵr mwyaf llygredig yn y byd, a byddai ychwanegu at y difwyniant ymbelydrol hyn yn hollol anghyfrifol.

Mae gwastraff tra ymbelydrol o'r Almaen yn gorfod cael ei gludo naill ai i Sellafield neu i Cap de la Hague yn Ffrainc i gael ei ail brosesu (gan ddychwelyd y plwtoniwm a gymerwyd allan), neu i Gorleben neu Ahaus yn yr Almaen. Flwyddyn yn ôl bu angen 30,000 o heddweision i "amddiffyn" trenaid o wastraff niwclear tra ymbelydrol ar ei thaith i Gorleben yng Ngogledd yr Almaen rhag 15,000 o brotestwyr a mwyafrif y trigolion lleol.

Ym mis Mawrth eleni, Ahaus yng Ngorllewin yr Almaen a gafodd y driniaeth. Gadawyd gemau pêl-droed yn brin o heddlu wrth i 30,000 o heddweision gael eu hanfon i Ahaus i hebrwng y gwastraff. Y tro hwn dechreuodd y trên gwastraff ar ei daith dridiau ynghynt er mwyn twyllo'r gwrthdystwyr, ond gollyngwyd y gath o'r cwd pan archebodd y plismyn fil o dorthau ychwanegol o boptai Ahaus. Sefydlodd y protestwyr 7 gwersyll o gwmpas y safle gwastraff. Dargyfeiriwyd y trên niwclear i osgoi protestiwr a oedd wedi ei goncridio ei hun i'r cledrau.

Dywedir mai'r ymgyrch ddiogelwch hon er hebrwng y gwastraff oedd yr un fwya fer 1945. Mwya'n y byd a gostiff hi i awdurdodau'r Almaen i storio eu gwastraff yn yr Almaen, mwya deniadol a ddaw'r syniad o'i allforio i Ffrainc ac i Brydain. Bydd awdurdodau niwclear y byd cyfan yn gwylio â llygaid barcud o hyn ymlaen i weld pa mor gryf yw teimladau gwrth-niwclear cyhoedd Ewrop. Ein tasg ni yw datgelu mor ofnadwy beryglus a chostus yw'r atebion cyflym "hawdd", a dangos iddynt beth yw ystyr gwir gyfrifoldeb lle mae dyfodol ein planed yn y cwestiwn.

Jill Stallard

**GWEITHREDU**

*• Mwy o wybodaeth gan Pat Allen (0171) 607 2302. Diolch i Pat, David Polden (Grŵp Gweithredu Trenau Niwclear) ac Earth First!*

### Ymbelydredd isel: peryglu bywydau'n plant yn enw "amddiffyn"

Mae Dr Chris Busby o'r Ymgyrch ar Ymbelydredd Lefel Isel wedi honni, mewn papur diweddar, bod dadansoddiad manwl o fynychter achosion lewcemia yn Ward Newbury, Swydd Berkshire, yn awgrymu y gallai gronynnau plwtoniwm hongian yn yr awyr o ganlyniad i effaith electrostatig. Mae AWE Aldermaston ac ROF Burghfield (dau safle sydd â rhan mewn cynhyrchu arfbennau niwclear) yn gollwng gronynnau ymbelydrol hylifol a nwyol i'r awyr. Cred Chris Busby yw, gan fod gronynnau plwtoniwm wedi'u gwefru'n negyddol oherwydd eu bod yn alldaflu gronynnau wedi'u gwefru'n bositif wrth ddadfeilio, y caent eu gwrthyrru gan y ddaear sydd wedi'i gwefru'n negyddol a'u gyrru i'r awyr. Er y byddai'r gronynnau ar yr awyr yn cael eu gwrthyrru gan offer monitorio, gellid eu hanadlu neu eu llyncu'n hawdd.

*Parhad ar y dudalen nesaf*


Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn y New Scientist ar 11eg Hydref 1997 yn awgrymu y gallai niwed a achosir i DNA gan ddognau isel o ymbelydredd esbonio mynychter cynyddol nifer o glefydau heblaw am ganser.

Mae astudiaeth epidemiolegol o bwys, Cancer in the offspring of radiation workers, wedi canfod bod plant i weithwyr ymbelydredd gwrywaidd ddwywaith yn debycach o ddatblygu canser, ac y gallai plant i weithwragedd ymbelydredd fod cymaint â phum gwaith mor dueddol i'w ddatblygu.

Mewn adroddiad yn Bulletin of the Atomic Scientists, ysgrifenna Ian Fairlie a Martin Resnikoff fod "Radiofiolegwyr yn cytuno bellach y gall canser gychwyn o ganlyniad i drac ymbelydrol unigol deithio drwy gnewyllyn cell unigol. Atgyweirir y rhan fwyaf o niwed gan ensymau... ond os gall trac unigol – y dogn ymbelydrol isaf posibl – achosi canser, yno mae'r dinoethiad lleiaf i ymbelydredd yn beryglus."

## Wncl Sam yn clustfeinio o Menwith Hill

Mae adroddiad a ddosbarthwyd i ASEau yn datgelu rôl Gorsaf Sbïo'r UDau ym Menwith Hill, Swydd Efrog fel calon rhwydwaith sy'n caniatáu i Asiantaeth Diogelwch Cenedlaethol yr Unol



Daleithiau ryng-gipio llythyron a galwadau ffôn a ffacs ledled Ewrop heb drafferth.

Mae Adroddiad Pwyllgor Hawliau Dinesig Senedd Ewrop yn disgrifio system sydd yn "diwahân ymyrryd â chyfathrebion gan seiffno allan yr hyn sydd o werth drwy ddefnyddio cynorthwyon deallusrwydd artiffisial... i ddod o hyd i eiriau allweddol. Fe'i cynlluniwyd yn anad dim ar gyfer targedau anfilwrol: llywodraethau, sefydliadau a busnesau ym mhob gwlad ymron." Cynghorir Senedd Ewrop i wrthod cynigion gan yr UDau y dylai negesau preifat a anfonir trwy'r rhyngrwyd fod ar gael i asiantaethau cudd-ymchwil yr UDau, ac i fynnu bod y fath weithgareddau gan yr UDau naill ai'n cymryd lle mewn modd agored ac atebol neu'n digwydd ar raddfa llai yn Ewrop.

Bydd ymgyrchwyr Ewropeaidd dros heddwch a hawliau dynol yn ystyried unrhyw gais am "leihau" y fath weithgareddau yn anfoddhaol dros ben. Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu i ba raddau y caiff yr Americanwyr "ryng-gipio" ein cyfathrebion?

Mae llawer ohonom sy'n byw mewn gwledydd "democrataidd" yn ystyried preifatrwydd a rhyddid yn rhan o'n genedigaeth-fraint, a phrin y dychmygwn i ba raddau y'n twyllir ni.

**GWEITHREDU**

• *Cysylltwch â'ch ASE i leisio'ch pryderon. Mwy o wybodaeth gan CND Swydd Efrog (01274) 730795 e-bost: cndyorks@gn.apc.org*

## Dadfeddiant yng Ngwersyll Faslane!

Ym mis Ebrill bydd preswylwyr Gwersyll Heddwch Faslane o flaen y llys, lle bygythir eu dadfeddiannu. Fel yr adroddodd Heddwch ynghynt, mae Cyngor Argyll a Bute, gan anwybyddu erchyllter gweledol a moesol gorsaf llongau tanfor Trident yn Gareloch, wedi datgan bod y wersyll yn ddolur llygad a ddylai gael ei gau.

Gwrthodwyd rhoi cymorth cyfreithiol i'r gwersyllwyr, ac maen nhw'n gofyn am help i godi £7,500 at gost herio'r gorchymyn troi allan. Mae CND Cymru'n anfon cyfarchion cariadus at bob ymgyrchydd heddwch yn Faslane, gan addo y cânt gefnogaeth gennym yn y cyfnod dyrys sydd o'u blaenau.

**GWEITHREDU**

• *Dylid anfon sieciau taladwy i "Faslane Peace Camp" i Faslane Peace Camp, Shandon, Helensburgh, Dunbartonshire G84 8NT, Yr Alban. Anfonwch eich llythyron a chardiau cefnogaeth i'r un cyfeiriad. Cyn ymweld â'r wersyll galwch (01436) 820901 am fanylion. Halwch nodyn i'r Cynghorwyr Petrie a Walsh, Argyll and Bute Council, Kilmory, Lochgilphead PA31 8RT i ofyn pam nad ymgynghorwyd â'r trigolion lleol a'r gwersyllwyr, a pham maen nhw'n gwario arian cyhoeddus ar ddadfeddiannu'r ymgyrchwyr heddwch.*

## Vanunu – carchariad unigol i ddod i ben ar ôl 11 flynedd!



Er ei fod yn dal yn y carchar, mae pawb sydd wedi ymgyrchu dros ryddid Mordechai Vanunu, y carcharor cydwybod Israelaidd a ddatgelodd gyfrinachau niwclear ei wlad, wedi llawenhau wrth glywed na fydd e'n cael ei gadw ar wahân o hyn ymlaen.

Mae Vanunu wedi bod mewn caethiwed unigol ers cael ei herwgipio yn yr Eidal ar 30 Medi 1986 gan y Mossad (heddlu cudd Israel), ei roi ar brawf yn y dirgel a'i ddedfrydu i 18 mlynedd yn y carchar am "frad ac ysbïaeth" gan iddo ddatgelu i'r Sunday Times bod Israel yn cynhyrchu bomiau niwclear yn ffatri Dimona yn Niffeithwch Negef.

Yn ddiweddar mae Nick a Mary Eoloff o'r UDau wedi mabwysiadu Vanunu, gyda'i ganiatâd, ar ôl gwneud cais i lys ym Minnesota. Ar 17eg Chwefror eleni ymwelsant ag ef yng ngharchar Ashkelon. Roedd Vanunu mewn hwyliau da, medd Nick a Mary, ond clustfeiniodd gwarchodwr ar eu sgwrs a chawsant orchymyn i beidio â son am bynciau fel yr herwgipio ac arfau niwclear.

Dan gyfraith Israel daw Vanunu'n gymwys i gael ei barolio ar 21ain Ebrill eleni. Dywedodd y twrnai Israelaidd Ronit Robinson wrth asiantaeth Reuters: "Mae ganddo hawl i barôl fel unrhyw garcharor arall. Gan nad yw e'n fygwth i ddiogelwch bellach, a nad oes rheswm am ei gadw ar wahân, sut gallan nhw wrthwynebu parôl?"

Mae ymgyrch ryngwladol wedi dechrau i hel llofnodion pobl flaenllaw ar ddatganiad sy'n hawlio trugaredd i Vanunu ar achlysur hannercanmlwyddiant sefydlu gwladwriaeth Israel eleni.

Credir bod gan Wladwriaeth Israel tua 150 o arfau niwclear, rhwng bomiau syrthio ac arfbennau i daflegrau.

Diolch i'r Nuclear Resister.

**GWEITHREDU**

• *Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Campaign to Free Vanunu and for a Nuclear-Free Middle East, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL. Ysgrifennwch i Mordechai Vanunu, Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel.*

## Ymgyrch Oxfam yn erbyn anghydfod

Mae Oxfam wedi lansio ymgyrch i dynnu sylw at effaith erchyll rhyfel a chanhydfod ar fodau dynol. Y bobl dlotaf sy'n colli eu cartrefi, a'u teuluoedd a'u bywoliaeth hwythau a gaiff eu chwalu bob tro o ganlyniad i ryfel a thrais. Collir bywydau, dinistrir strwythur y gymdeithas a gwneir difrod parhaol i bobl gyffredin ddiniwed heb iddynt fod ar fai.

Yn y tymor byr mae Oxfam yn gobeithio ennill cefnogaeth i "Gôd Ymddygiad" i gyfyngu ar fasnach a chludiant arfau. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod yn Uwchgynhadledd Ewrop yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Mae elfennau eraill yr ymgyrch yn cynnwys cynhyrfu o blaid sefydlu Llys Troseddau Rhyngwladol; rhoi polisïau economaidd,

masnachol a chymorth rhyngwladol ar brawf yn erbyn y meini prawf sy'n asesu effeithiau anghydfodau, a pholisïau effeithiol i amddiffyn hawliau sylfaenol ffoaduriaid.

Wrth geisio ennill cefnogaeth eang i'r ymgyrch mae Oxfam yng Nghymru wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan nifer o ASau, ac erbyn hyn mae 50 o Gynghorau Cymuned Cymru'n ei chefnogi. Gobaith mwyaf Oxfam, serch hynny, yw y bydd y cyhoedd yn ymateb yn frwd i'r ymgyrch.

**GWEITHREDU**

*• Mae taflen "Cut Conflict" ar gael fel y gall unigolion wneud cyfraniadmoesol i'r ymgyrch drwy ei llofnodi. Taflenni a mwy o fanylion ar gael gan: Cut Conflict Campaign, Oxfam yng Nghymru, 46-48 Heol yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF4 5LU (01222) 757 067.*

## Menywod Greenham ar Brawf

"Ar wleidyddiaeth y seilir polisi ataliaeth niwclear – nid ar drefn y gyfraith"

Ymddangosodd Peggy Walford a Sarah Hipperson yn Llys y Goron, Reading ym mis Mawrth ar gyhuddiad o beri Difrod Troseddol i ffens Sefydliad Arfau Atomig Burghfield. Dyfarnodd y barnwr fod Penderfyniad Llys Rhyngwladol Yr Hâg, sef "bod bygwth defnyddio, a defnyddio, arfau niwclear fel arfer yn groes i drefn y gyfraith ryngwladol", yn annerbyniol fel tystiolaeth. Bu hyn yn siomedigaeth gan mai hon a oedd i fod yr her gyntaf mewn treial gerbron rheithgor yn Llys y Goron i Farn Ymgynghorol y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ar "gyfreithlondeb bygwth defnyddio a defnyddio arfau niwclear".

Serch hynny ni lwyddodd y rheithgor ddod i benderfyniad unfrydol yn yr achos hwn. Gollyngodd y barnwr y rheithgor gan ryddhau'r diffynnyddion hyd nes gwneir penderfyniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a ddylid cynnal aildreial. Wrth inni fynd i'r wasg, mae gan y CPS saith diwrnod i ddod i benderfyniad.

Fe ymddengys adroddiad llawn ar yr achos yn rhifyn mis Gorffennaf.


Rod Stallard

**GWEITHREDU**

*• Am fwy o wybodaeth ac i gynnig cefnogaeth ysgrifennwch i: The Women's Peace Camp, Greenham Common, Berkshire RG19 6HN, Lloegr neu ffoniwch (01635) 269109. Mae angen cymorth ariannol bob amser, felly anfonwch siec daladwy i "Greenham Common Women's Peace Camp".*

## Cynghrair cydwladol ardaloedd di-niwclear

Menter yw'r cynghrair hwn wedi'i hanelu at awdurdodau lleol sy'n honni eu bod o blaid rhoi terfyn ar ddefnyddio ynni niwclear at ddibenion milwrol a




sifil. Fe'i hawgrymwyd gan lywodraeth ranbarthol Salzburg (Awstria) er mwyn darparu fforwm i lunio mentrau "anniwclear"; i gyd-bwyso ar sefydliadau Ewropeaidd i wella diogelwch niwclear a lleihau'r gwastraff niwclear a gynhyrchir, ac i ddatblygu a hyrwyddo technolegau ynni cynaliadwy a chadwraeth ynni. Cefnogir y fenter hon gan CND Cymru, a fydd yn annog Fforwm Ardaloedd Di-Niwclear Cymru i ymgysylltu â'r cynghrair fel gwlad ddi-niwclear gynta'r byd.

**GWEITHREDU**

*• Dylai cynghorwyr sydd â diddordeb yn y fenter hon gysylltu â'u cynrychiolydd yn y Fforwm Di-Niwclear, neu Stewart Kemp, NFLA, (0161) 831 9108.*

## Cydweithrediad Siapan/UDA

Mawrth 18 oedd 23ain penblwydd "Fformiwla Kobe", datganiad anniwclear sy'n gwahardd llongau sy'n cludo arfau niwclear rhag hwylio i borthladd Kobe yn Siapan. Gorfodir pob llong sydd am fynd i mewn i'r porthladd i gyflwyno prawf nad yw'n cludo arfau niwclear. O hyn ymlaen estynnir y rhwymedigaeth hon i bob porthladd yn rhaglawiaeth Kochi.

Mae'r rhai sy'n gweithio dros waredu Siapan rhag gwersylloedd rhyfel yr Unol Daleithiau yn ofni bellach y bydd cytundeb newydd rhwng llywodraethau Washington a Tokio yn tanseilio statws anniwclear Kobe a Kochi. Disgrifiwyd y cytundeb, a adwaenir fel y "Canllawiau Newydd", fel "fersiwn Asiaidd o ehangiad NATO" gan Ddirprwy Gynorthwy-ydd Adran Amddiffyn yr UDau.

"Llawlyfr Rhyfel" yw'r enw a roddir iddo gan ymgyrchwyr heddwch Siapan, gan fod y cytundeb yn dibynnu ar gydsyniad Siapan â sefyllfa lle y gallai Lluoedd Hunan-Amddiffyn y wlad, yr awdurdodau lleol, cwmnïau sifil a'r boblogaeth gyfan gael eu mwstro ar gyfer rhyfel a gâi ei gychwyn gan yr Unol Daleithiau. Fe fyddai holl feysydd awyr a phorthladdoedd sifil Siapan (gan gynnwys Kobe) dan reolaeth lluoedd arfog UDA.

**GWEITHREDU**

*• Anfonwch negesau cefnogaeth i Hyogo Council Against A&H Bombs, sy'n ymgyrchu dros roi terfyn ar y "Llawlyfr Rhyfel", a sy'n datgan mai "Cymorth a chefnogaeth ryngwladol ein cyfeillion ym mudiadau heddwch y byd sydd wedi bod yn galondid mawr inni". Gellir cysylltu â nhw yn: Chamoto Bldg.,6-7-6 Motomachidori, Chuo-ku Kobe 655-0022, Siapan. Ffacs: +81 78 371 2427. E-bost: KBNOBU@msn.com*

## Ymgyrch yn erbyn yr Eurofighter ac ehangiad NATO

Mae CND Manceinion Fawr (GMCND) yn gobeithio y llofnodwch chi'r ddeiseb ddwbl yn erbyn prosiect yr Eurofighter ac ehangiad NATO a amgaeir gyda'r rhifyn hwn o Heddwch. Bydd y deisebion wedi'u llenwi yn cael eu hanfon i arweinwyr gwrthbleidiau'r Almaen (Eurofighter), i'r Seneddwr Jesse Helms ar Bwyllgor Cysylltiadau Tramor Senedd UDA (ehangiad NATO) ac i Brif Weinidog Prydain (y ddwy ddeiseb). Dychwelwch eich deisebion cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os nad oes ond llofnod neu ddau arnynt. Mwy o wybodaeth am y ddau achos ac am weithgareddau, a rhagor o ddeisebion oddi wrth Malcolm Sutcliffe, GMCND, 6 Mount Street, Manceinion M2 5NS, Lloegr. Ffôn: (01942)894 862. Gweler hefyd Peace News Mawrth 1998 a'r safle gwe: www.dfg-vk.de

# Gwastraff niwclear yn hedfan dros y ffens yn Sellafield

Mae profion ar golomennod y safle niwclear yn Sellafield, Cymbria, wedi dangos eu bod wedi'u difwyno o ganlyniad i glwydo mewn adeiladau ymbelydrol neu drwy fwyta bwydydd lleol – neu gyfuniad o'r ddau beth. Mae'r Weinyddiaeth Amaeth (MAFF), gan nodi dadansoddiad cychwynnol a wnaeth cwmni BNFL ar golomennod ymbelydrol a ddidolwyd, wedi rhybuddio'r cyhoedd na ddylid trafod, lladd na bwyta'r un golomen a geir o fewn cwmpas deg milltir o ganolfan Sellafield. Datganodd MAFF yn ogystal y byddai cig brest tua chwech o'r adar hyn, o'i fwyta, yn rhoi dogn ymbelydrol sy'n cyfateb i'r dogn cyhoeddus blynyddol uchaf sef 1mSv.

Mae dadansoddiad a wnaed ar chwe cholomen ddidoledig a ddaeth i ddwylo Greenpeace wedi datguddio lefelau difwyniant mewnol ac allanol llawer uwch na hyn. Yr oedd y radioniwclidau a adnabuwyd yng nghnawd, plu ac ysgarthion yr adar yn cynnwys Americiwm 241 (a thrwy oblygiad, plwtoniwm), Cesiwm 137 a Cheriwm 144. Mae Greenpeace wedi pwysleisio bod maint y difwyniant a gafwyd yn y colomennod hyn yn golygu y gellid eu categorio fel gwastraff ymbelydrol lefel-isel. Gofynnodd Helen Wallace o Greenpeace: "Sut gall BNFL gymryd arno bod ei ffatri blwtoniwm dan reolaeth pan mae gynnon nhw wastraff niwclear yn hedfan dros y ffens?"

Ers i hyn ddigwydd mae BNFL wedi cadarnhau bod colomennod didoledig yn cael eu gwaredu mewn blychau metel ar Ddadlwythfa Ymbelydredd Lefel-Isel Drigg.

Yn enw "monitoriaeth gysurol" mae rhestr dioddefwyr y dechnoleg niwclear bellach yn cynnwys ystod eang o fywyd gwyllt o amgylch safle Sellafield megis gwylanod, adar y drycin, ydfrain, cigfrain, adar y to, cwningod, llygod ac anifeiliaid bach eraill – ie, a mosgitos. Ni wyddys a gyhoeddir canlyniadau'r ymchwil hon. Mae BNFL yn benderfynol o ddifa'r haid gyfan o ryw 700 o golomennod oherwydd y lefelau difwyniant. Honna'r cwmni nad oes perygl i'r cyhoedd.




■ *Dafydd Wigley*




■ *Taith gerdded noddedig Dydd Calan cyn mentro allan o Gastell Caerdydd. Cododd y daith arian at gofeb i Helen Thomas o Gastellnewydd Emlyn a fu farw'n drychinebus tra'n ymgyrchu dros heddwch yn Greenham Common ym mis Awst 1989.*

# Cerdded er cof am Helen

Ar Ddydd Calan 1998 cychwynnodd aelodau o CND Caerffili a Chôr Cochion Caerdydd ar daith gerdded noddedig i godi arian ar gyfer cofeb i Helen Thomas – coeden a phlac.

Bu'r tywydd yn arswydus dros y penwythnos hwnnw gyda gwyntoedd cryfion ar adegau. Roedden ni eisoes wedi rhewi ac yn wlyb diferol wrth gychwyn ar hyd Llwybr Taf o Gaerdydd i Dongwynlais. Ymhlith y rhai a gymerodd ran yr oedd rhieni Helen Thomas, Ann Clwyd AS, Julie Morgan, y Cynghorydd Sue Essex, aelodau Côr y Cochion a'n dau blentyn ni Tad (4) a Charwyn (2) – crwydrwyr profiadol! Fe gerddon ni fwy na 6 milltir.

Wrth inni ymlwybro trwy'r mwd, meddyliais am gyfraniad gwerthfawr Helen i'r mudiad heddwch cyn ei marwolaeth yn Greenham yn 23 oed. Cyrhaeddodd hi'r Porth Melyn tua diwedd 1988 gan wneud argraff ddofn ar bawb; nid yn unig oherwydd ei gwallt wedi'i liwio'n oren a'i throwsus porffor, ond trwy ei safiad gwrth- hiliol, ei chred angerddol yn nyfodol ei hiaith a'i diwylliant Cymraeg, a'r argyhoeddiad a rannai â menywod eraill y Porth Melyn y gellid ennill y dydd trwy weithredu uniongyrchol di-drais. Yn ystod yr ychydig misoedd a dreuliodd yn Greenham cymerodd hi ran mewn llawer gweithred herfeiddiol yn wyneb peiriant milwrol yr MoD.

Cyfoethogodd Helen fywyd pob un a'i hadwaenai, trwy ei dewrder a'i deallgarwch; yr hyn a'i symbylai bob amser oedd yr ymdrech dros heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol. Ei brwydr hi oedd ein brwydr ni.

Cynhelir y seremoni blannu coeden o flaen y Deml Heddwch, Caerdydd, ddydd Sadwrn 16eg Mai eleni. Y Parch. Douglas Bale a gyfarwydda'r cyfarfod, a fydd yn cynnwys caneuon heddwch gan Gôr Cochion Caerdydd. Bydd Dafydd Iwan yno i ganu "Cân i Helen", a cheir cyfraniad gan Mary Millington, un o fenywod Porth Melyn Greenham. Gweinir lluniaeth ysgafn yn y Deml Heddwch.

Hoffem ddiolch i gefnogwyr CND Cymru a fu mor hael â chyfrannnu at gost y goeden a'r plac. Serch hynny rydyn ni'n dal i fod tua £300 yn brin o'r nod. Bydden ni'n ddiolchgar iawn felly i dderbyn unrhyw rodd ychwanegol.

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Gôr Cochion Caerdydd" a'u hanfon i: Ray Davies, 172 Heol y Pandy, Bedwas, Casnewydd, Gwent NP1 8EP.

*Wendy Lewis Davies*

# Trawsfynydd – ardal dra difwynedig



Mae'n 5 mlynedd ymron ers y datganiad y byddai atomfa Trawsfynydd yn cau. Yr oedd y safle wedi cael ei ddifwyno'n ddifrifol ac mae'r gwaddod ar waelod y llyn y defnyddid ei ddŵr i oeri'r offer yn cynnwys nifer mawr o radioniwclidau synthetig peryglus dros ben.

Saif atomfa Trawsfynydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, a mynegodd yr awdurdodau lleol eu dymuniad y byddai'r safle'n cael ei "glirio" cyn gynted â phosibl. Datganodd y perchnogion y byddent yn ymgymryd â fersiwn wedi'i addasu o "gliriad safle gohiriedig", ac y byddai'r adeiladau lle y safai'r adweithyddion yn aros am o leiaf 130 mlynedd.

Mae'r holl wiail tanwydd niwclear wedi cael eu trosglyddo bellach i Sellafield mewn trenau, gan deithio yn agos i ysgolion a thai. Mae rhannau o'r offer wedi cael eu datgymalu, ac mae gwastraff yn cael ei drin a'i storio ar y safle. Bwriad Magnox Electric yw dymchwelyd yr holl adeiladau heblaw am rai'r adweithyddion ac eraill a gaiff eu defnyddio i storio gwastraff. Bydd y cwmni'n drosi'r rhain yn "stordai diogel" drwy leihau uchder adeiladau'r adweithyddion, eu hail-amwisgo a'u hail-doi, a diwygio cymhlyg y llyn oeri.

Yr agwedd mwyaf brawychus yw'r ffaith bod y llyn llygredig ei hun yn mynd i gael ei "roi" i'r gymuned leol i'w ddatblygu fel safle hamdden ac atynfa i ymwelwyr. Mae gwely'r llyn wedi ymhollti, felly mae llygredd ymbelydrol yn gollwng i'r dŵr daear. Mae nant o'r enw y Ceunant yn rhedeg o'r llyn i Fôr Iwerddon.

Yn sgil cryn anghydfod, protestiadau a thrafodaethau, mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi mynnu bod yn rhaid i Magnox Electric geisio am ganiatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau neu ddatblygiad arfaethedig ar y safle. Yr oedd Magnox Electric wedi gobeithio y gellid osgoi'r archwiliad a'r ymgynghori cyhoeddus a olyga cais am ganiatâd cynllunio. Disgwylir cais cyflawn eleni.

Mae'r cais cynllunio yn arwyddocaol dros ben, a bydd yn rhaid iddo gael ei drafod yn y modd mwyaf cyhoeddus posibl. Mae'r driniaeth a roddir iddo'n debyg o osod cynsail ar gyfer datgomisiynu atomfeydd eraill ledled Prydain, a bydd yn hynod gostus i'r cyhoedd. Rhaid gofyn cwestiynau am ddyfodol y gwastraff ymbelydrol o Drawsfynydd. Dylai'r safle cyfan, gan gynnwys y llyn, gael ei amgáu fel bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu rhag pob difwyniant.

Mae Pwyllgor Llywio Cenedlaethol yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn argymell bod awdurdodau cefnogol yn cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol yn ei dro, er mwyn hyrwyddo ymchwiliad cyhoeddus ar y cais.

**GWEITHREDU**

• *Os cyhoeddir cais cynllunio Trawsfynydd cyn i'r rhifyn nesaf o Heddwch ymddangos ac os ydych chi am gael eich hysbysu am ddigwyddiadau, cysylltwch â. Hugh Richards, Cynghrair gwrth-Niwclear Cymru (01982) 570362, Jill Stallard CND Cymru (01550) 750 260, neu Deilwen Evans CADNO (01766) 540 408.*

# Penblwydd Hapus yn 16 oed i Gymru Ddi-Niwclear!

## Yr etifeddiaeth niwclear – derbyn cyfrifoldeb

I ddathlu 16eg penblwydd datgan Cymru'n wlad ddi-niwclear, cyd-drefnodd Fforwm Ardaloedd Di-Niwclear Cymru gynhadledd lle y canolbwyntiwyd ar ein cyfrifoldebau ynghylch yr etifeddiaeth a adewir inni trwy'r defnydd a wneir o ddeunyddiau ymbelydrol. Anerchwyd y cyfarfod gan Chris Gifford (Arolygydd Mwngloddiau wedi ymddeol), Paul Trimby (CAAT), y Cyng. Dr Shah Imtiaz (Fforwm Ardaloedd Di-Niwclear Cymru), Dr Frank Barnaby (Ymchwilfa Heddwch Ryngwladol Stockholm), Paul Flynn AS, Dr Pat Green (CyDd) a Catherine Peasely (OPET Cymru). Trafododd y sesiynau gweithdy rai o'r problemau niwclear mwyaf dybryd sy'n effeithio ar Gymru.

Yr oedd y penderfyniadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- cefnogaeth i ynni cynaliadwy;
- gwrthwynebiad i Orchymyn Cyngor 96/29/Ewratom;
- pryder ynghylch delio â gwastraff niwclear a llygredd morol;
- gwrthwynebiad i ollyngiadau ymbelydrol gan Nicomed Amersham;
- galwad ar i'r Llywodraeth sicrhau y bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol rym i oruchwylio a rheoli ein safleoedd niwclear.

Trefnwyd y Gynhadledd gan CND Cymru, WANA a ChyDd Cymru. Dymunwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan, helpu i drefnu, cadeirio yn ystod y cyfarfod a hwyluso gweithdai. Diolch yn arbennig i Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful am ddarparu lle i gyfarfod a chyfleusterau, ac am gefnogaeth werthfawr ei swyddogion a'i weithwyr.



## Diwedd ar Ryfel – gweledigaeth sy'n fwy na bara a chwaraeon

HAGUE APPEAL FOR PEACE 1999

Mae Apêl yr Hâg dros Heddwch 1999 yn adeiladu ar sail gweledigaeth y Gynhadledd Heddwch Gyntaf a gynhaliwyd yn yr Hâg ym 1899. Trefnwyd y Gynhadledd gyntaf honno mewn modd unigryw nid i ddatrys na chwblhau rhyfel eithr er mwyn trafod sefydlu trefnweithiau parhaol i atal rhyfel a datrys anghydfodau'n heddychlon. Cymdeithasau heddwch dinesig a ysbrydolodd yr ail gynhadledd, a gynhaliwyd ym 1907. Cyfrannodd y ddwy gynhadledd at ddatblygu deddfwriaeth ddyngarol ryngwladol, a hwy hefyd a heuodd hedyn Cynghrair y Cenhedloedd.

Mae Apêl 1999 yn gwahodd cefnogwyr i chwarae eu rhan er hyrwyddo'r ewyllys moesol, ysbrydol a gwleidyddol i gyflawni'r hyn y gŵyr ein harweinwyr y dylid ei wneud ond na allant eu darbwyllo eu hunain i'w wneud:

- Cadarnhau hawliau dynol a deddfau a sefydliadau dyngarol ar raddfa ryngwladol;
- Atgyfnerthu trefnweithiau i ddatrys anghydfodau'n heddychlon;
- Dileu'r fasnach arfau;
- Dileu arfau niwclear, ffrwydron tir a phob arf arall a fo'n anghydnaws â deddfau dyngarol;
- Dargyfeirio'r adnoddau enfawr a ryddheir gan ddiwedd y ras arfau at ddileu tlodi;
- Fe roddir pwyslais mawr yn ogystal ar achosion sylfaenol rhyfel, ac ar hyrwyddo traddodiad heddychlon byd-eang.

Ysgrifenna Bruce Kent:

"Ym Mhrydain ymddengys bod y rhan fwyaf o'r awgrymiadau ar gyfer dathlu'r mileniwm yn golygu cymysgedd o fara a chwaraeon. Mae dileu rhyfel yn swnio imi'n llawer mwy trawiadol na'r rhan fwyaf o nodau a argymhellwyd hyd yn hyn. Os na bydd pobl y byd bob amser yn cytuno â'i gilydd, a go brin y byddan nhw byth yn gwneud felly, nid yw'n rhy annhebygol y gallan nhw ddyfeisio moddau o ddatrys anghydfod sy'n osgoi lladd ei gilydd."

Mae CND Cymru'n falch o fod wedi mynegi cefnogaeth i Ddatganiad Gweledigaeth Apêl yr Hâg, a amlinellir yma. Dylai unigolion a grwpiau sydd am gymryd rhan neu gael mwy o wybodaeth gysylltu â Jill Stallard, CND Cymru (gweler Cysylltiadau) neu â Bruce Kent d/o CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.

## Peryglon Cyfrinachedd Corfforaethol

Mae'r gorsafoedd pŵer niwclear a gadwyd dan berchenogaeth gyhoeddus fel "Magnox Electric" adeg preifateiddio'r diwydiant trydan bellach wedi cael eu cydgorffoli â BNFL. Fel yr adroddodd Heddwch eisoes, golyga hyn sefydlu trefniant rheolaethol newydd yn unol ag amcanion newydd y cwmni. Mae BNFL wedi ysgwyddo ymrwymiadau anferth wrth feddiannu'r safleoedd Magnox darfodedig hyn,a hynny ar ben ei rwymedigaethau yn Sellafield a Dounreay.

Rhaid mynd i'r afael â phryder y cyhoedd ynghylch y safleoedd hyn. Rhaid inni beidio â gadael i'r newidiadau rheolaeth a chysylltiadau ein camarwain a'n drysu. Mae'r diwydiant niwclear wedi creu problemau anferth i'r cenedlaethau a ddaw; ni wiw inni ganiatáu i ad- drefniadau corfforaethol gelu'r etifeddiaeth anfad hon.

***Rod Stallard***

**GWEITHREDU**

- *Cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol a gofynnwch iddi/o sicrhau na chaniateir i newidiadau arfaethedig yn nefnydd safleoedd llygredig ymbelydrol ddigwydd heb fod y bobl leol yn cael ymgynghori ar y mater mewn gweithdrefn gyflawn agored trwy gyfrwng yr awdurdod lleol.*

## Dechrau Canu, Canmol Trident?

Moeli eu clustiau a chodi'r ffôn a wnaeth ymgyrchwyr heddwch ledled Cymru a Phrydain wrth glywed mai o ford llong danfor Trident y deuai rhaglen "Gristnogol" y BBC, Songs of Praise ym mis Ionawr. Cynhwysai'r teledlad gyfweliadau â morwyr, a phersonél y Llynges a lenwai seddau blaen y gynulleidfa.

Yr oedd nifer o weinidogion lleol wedi gwrthod cymryd rhan yn y rhaglen, gan awgrymu (yn ofer) i ymchwilwyr y BBC eu bod yn cysylltu â rhai o'r bobl ddirif yn yr ardal sy'n gwrthwynebu Trident.

Ymunodd lleisiau ymgyrchwyr yng Nghymru â'r llu o brotestwyr a alwodd ar y BBC i beidio â darlledu'r rhaglen. Fe'i disgrifiwyd fel "cabledd" gan yr Arglwydd Soper, y Canon Paul Oestreicher a Maxwell Craig (Ysgrifennydd Cyffredinol, mudiad Gweithredoedd Eglwysi'r Alban Ar y Cyd). Cyhoeddwyd llythyron yn ei chondemnio mewn papurau lleol ledled Cymru, a chwynodd llawer ohonom i'r cynhyrchydd, heb sôn am swyddog dyletswydd druan y BBC. O ddifrif, beth nesaf!

## Gyrru heb frêcs: Y bedwaredd long danfor Trident a gwastraff niwclear

Mae'r MoD wedi cyfaddef iddi redeg allan o le i storio cregyn ymbelydrol llongau tanfor â phŵer niwclear, a sy'n cludo arfau niwclear. Argymhellir datgymalu'r llongau datgomisiynedig a storio'r darnau ymbelydrol ar dir.

Mae 4edd long danfor niwclear Trident Prydain, a chanddi'r gallu i gludo 96 o arfbennau niwclear, i fod i gael ei chomisiynu eleni. Ym mis Mai fe osodir gwiail tanwydd niwclear ymbelydrol yn ei hadweithydd. Ar hyn o bryd mae'r llong yn lwmpyn o sgrap "uwch-dech". Unwaith y bydd y gwiail tanwydd wedi cael eu gosod, fe fydd hi'n lwmpyn enfawr o sgrap ymbelydrol.

Mae Is-Bwyllgor II Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg wrthi ar hyn o bryd yn astudio problem anferth storio'r gwastraff niwclear sy'n cynyddu ym Mhrydain yn frawychus gyflym.

Mae CND Cymru wedi ysgrifennu i'r Ysgrifenyddion Gwladol John Prescott a George Robertson yn awgrymu mai cyfraniad mawr at ddatrys y broblem hon fyddai i'r MoD beidio â chomisiynu'r 4edd long danfor Trident. Effaith cynllun o'r math fyddai tynnu cannoedd o dunelli o'r pentwr o wastraff ymbelydrol sy'n cynyddu'n feunyddiol.

Rhaid derbyn iechyd y bobl a chyflwr yr amgylchedd fel rhaganghenraid sylfaenol pob "diogelwch" cenedlaethol. Mae ychwanegu o hyd at broblem y gwastraff niwclear yr un mor wallgof â gyrru cerbyd modur yn gyflymach gyflymach gan wybod yn iawn nad oes brêcs arno!

***Rod Stallard***

# Dim trais yn erbyn pobl Irac!

Mae'n amlwg bod y protestiadau a'r gwrthwynebiad i holl fursennu a bygythiadau'r UDau a Phrydain ynghylch bomio Irac wedi cael effaith sylweddol ar arweinwyr y byd. Canmolwyd Robin Cook, Tony Blair a'r Arlywydd Clinton gan Kofi Annan am ddefnyddio "diplomyddiaeth wedi'i hategu gan bwysau grym" a'u bygythiadau trais yn erbyn pobl gyffredin. Ond yr un mor amlwg yw'r ffaith iddynt fethu ag argyhoeddi eu cydwladwyr gartref, nad oedd lladd pobl ddifai yn Irac yn dderbyniol ganddynt. Yng Nghymru, derbyniodd ein cynrychiolwyr etholedig neges glir gan ymgyrchwyr, llenwyd colofnau llythyron y papurau newydd, cynhaliwyd cyfarfodydd a gwylnosau, ac am 14 awr yng Nghaerdydd gwelwyd baner wrth-ryfel yn hedfan ar ben craen yn Stadiwm y Mileniwm.

## Mae bwlio'n iawn

R#hyddhad amlwg oedd i Kofi Annan leithio'r tebygrwydd o weld rhyfel, ond bregus a fu'r rhyddhad hwnnw. Mae arweinwyr Irac yn dal wrth y llyw, ac yn gadarnach nag erioed diolch i'w dibynfentro ac, yn ôl y sôn, basili'r clwyf du (Anthracs, a roddwyd i Irac gan yr Unol Daleithiau yn y 70au) a'r arfau cemegol a biolegol mewn stordai cudd. Mae safbwynt Washington wedi'i ddatgelu'n ddigamsyniol i weddill y byd. Mae bwlio'n iawn, ar yr amod mai chi yw'r un sydd â sedd ar Gyngor Diogelwch y CUoedd a'r bomiau "malu bynceri" yn eich poced.

## Sancsiynau fel arfau torf-ddinistriol

M#ae trais yn dal i gael ei ddefnyddio yn erbyn pobl Irac. Mae'r sancsiynau'n parhau mewn grym yn erbyn eu gwlad. Wrth i'r CUoedd ddathlu 50mlwyddiant y Datganiad ar Hawliau Dynol, ar yr un pryd gwrthodir i fenywod, dynion a phlant Irac yr hawliau a oedd ganddynt cyn llanast 1991. Ym mis Chwefror aeth Mil Rai â moddion i Irac ar genhadaeth "torri sancsiynau". O Irac ysgrifennodd:

"Mae sancsiynau yn erbyn Irac yn drosedd. Mae gan y plant hyn hawliau, sydd wedi cael eu treisio'n gyson ac yn fwriadol gan yr UDau a Phrydain yn ystod y saith blynedd ddiwethaf. Mae ganddynt hawl i fywyd, i driniaeth feddygol ddigonol, i ddŵr yfed glân... Mae'r sancsiynau yn arf torf-ddinistriol. Mae taer angen dileu'r arf hwn"

Mae un sylwebydd, sy'n amau a yw Robin Cook wedi astudio pob opsiwn o ddifrif, yn gofyn a yw hi'n bryd bellach inni ystyried gwneud gwir ymdrech gydweithredol i ddadfilwroli'r byd.

"Dichon y byddai'n bosibl cadw at y fath nod, unwaith y'i cyrhaeddir, ond camp gwirioneddol anodd fyddai ei gyrraedd yn y lle cyntaf gan fod y ddynol ryw mor ddrwgdybus a bradwrus ei natur. Serch hynny, yn y tymor hir, 'does dim dewis arall."

JS

**GWEITHREDU**

• *Os ail-ymddengys y posibilrwydd o drais yn erbyn Irac, bwriedir cynnal gwylnosau mewn nifer o drefi yng Nghymru. Daliwch ati â'r awgrymiadau ar gyfer gweithredu a anfonwyd ym mis Chwefror (mae mwy o gopïau ar gael). Cysylltwch â CND Cymru am fanylion. Cadeirir y Pwyllgor er Atal Rhyfel yn y Gwlff gan Ray Davies, Is-Gadeirydd CND Cymru (gweler Cysylltiadau). Gellir cysylltu â'r Ymgyrch Yn Erbyn Sancsiynau ar Irac d/o Sebastian Wills, Clare College, Cambridge CB2 1TL, Lloegr (01223) 509 974 e-bost: saw27@cam.ac.uk*

## Neges Emily i Tony

Yn ei phryder am y posibilrwydd y byddai bomiau'n syrthio ar Irac ysgrifennodd Emily Freeman, aelod o CND Cymru 11 oed, lythyr llawn weledigaeth lân yr ifainc i Tony Blair a Bill Clinton. Soniwyd am ei neges mewn sawl papur newydd, ar Wasanaeth Byd y BBC ac ar y rhaglen newyddion i blant, "Ffeil". Dyma ymateb y Carmarthen Journal:

"'Does bosib na ddywedwyd wrth blant teulu Blair, fel Emily, bod bwlio'n beth drwg. Tybed sut mae (Tony) yn esbonio iddynt felly y dybiaeth mai pobl Saesneg eu hiaith yw plismyn y byd cyfan? Nage, er gwaethaf y syniad diniwed y byddai Tony Blair a Bill Clinton yn eu gwneud eu hunain "cynddrwg â Saddam Hussein" wrth ollwng bomiau ar Irac, go brin y cawn glywed rhywbeth cystal â phenderfyniad heddychlon Emily yn ystod sgwrs amser te ar aelwyd teulu Blair. Dim ond rhyw gytundeb Stepfordaidd hunanfodlon mai yr hyn a wnâ Dad sy'n iawn."



Chwefror 1af 1998
Annwyl Tony Blair,
'Dwy ddim yn hoffi'r syniad eich bod chi'n bygwth gollwng bomiau ar Irac. Nad ydych chi'n eich gwneud eich hunan cynddrwg ag y maen nhw yn eich barn chi?
Dychmygwch eich bod yn rhiant cyffredin, neu'n blentyn hyd yn oed, yn gwybod y gallech chi gael eich lladd yn fuan. Neu fe allai fod yn haws ichi ddychmygu bod rhywun yn mynd i fomio teuluoedd ym Mhrydain oherwydd bod bom niwclear gan Brydain?
Sut byddech chithau'n teimlo?
Nad oes yna well ffordd i ddatrys problemau na thrais?
Yr eiddoch mewn heddwch
Emily Freeman
(11 oed)

## 2 am 1: recriwtiwch gyfaill

Ar ôl darllen y copi hwn o Heddwch, beth am ei basio ymlaen i ffrind a gofyn iddi/o ystyried ymuno â CND Cymru? Mae llawer o'n haelodau'n cael eu denu i mewn gan eu ffrindiau, ac mae arnon ni angen pob cymorth posibl! Fe allech chi hefyd adael Heddwch mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymuned a stafelloedd aros meddygon a deintyddion!

## Eisteddfod yr Urdd Pwllheli 25-30ain Mai

Fel arfer, bydd gan CND Cymru stondin ar y Maes. Fe fydd hyn yn rhoi i aelodau yng Ngwynedd gyfle arall i weithredol gefnogi ein hymgyrch. Gwerthu nwyddau CND Cymru fydd rhan helaeth o'r gwaith, ond mae arnon ni angen pobl yn ogystal i ddosbarthu taflenni, deisebu a hyrwyddo'r ymgyrch. Os oes gennych chi fore neu brynhawn rhydd felly, bydden ni'n ddiolchgar iawn i gael eich help. Bydd tocynnau ar gael, ond rhaid trefnu ymlaen llaw.

Cysylltwch â: Jan Henderson, Swyddog Masnachu (01792) 830330.

## Siec heb ei newid?

Ym mis Medi y llynedd cafodd tair neu bedair siec adnewyddu aelodaeth eu colli yn y post. Os nad yw eich siec chi i CND Cymru wedi ei newid, dylech chi gysylltu â Brian Jones, Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae eich aelodaeth yn werthfawr inni, a hyd yn oed os nad yw eich siec wedi cael ei newid gan y banc rydych chi wedi cael eich cofnodi fel aelod sydd wedi ail- ymuno eleni. Mae ein system wedi cael ei gwella erbyn hyn fel na all y broblem hon godi eto.

# Dyddiadau Dyddiadur

**Mai 2il** Sychau Erydr Trident 2000. Lansio Llw i Atal Trosedd Niwclear. Cychwyn deialog 3 mis gyda'r heddlu a gwneuthurwyr penderfyniadau. *Cyswllt: (01603) 611953*

**Mai 4ydd** Llun Heddŵyl '98 10am - 4pm Cadeirlan Coventry ."Dathlu'r Gymuned Heddychlon" - Addoli, Seminarau, Cerddoriaeth, Gweithdai, Digwyddiadau i blant, stondinau, arddangosfeydd... i bawb. Siaradwyr yn cynnwys Bruce Kent ac Esgob Trefynwy, Rowan Williams. *Cyswllt: (01832) 720 257*

**Mai 8fed** Dyddiad cau am benderfyniadau ar gyfer Cynhadledd CND Prydain *(0171) 700 2393*

**Mai 9fed** AWE Aldermaston: "Lles o flaen Arfbennau". Cynulliad i fenywod o gwmpas y ganolfan niwclear i bwysleisio'r cysylltiad rhwng toriadau budd-dal a gwario milwrol - clymwch eich cwynion ar y ffens - a'ch pryderon - seinied eich llais. *Cyswllt: Siân (01222) 396 563*

**Mai 9fed** 11.00am Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod, Powys: (Cyfarfod) Cyngor CND Cymru: croeso i bob aelod a chynrychiolydd. *Galwch Jill am fwy o wybodaeth (01550) 750 260*

**Mai 16eg** Y Deml Heddwch, Cathays, Caerdydd: Plannu coeden a seremoni er cof am Helen Thomas, gyda Chôr Cochion Caerdydd a Dafydd Iwan, lluniaeth, croeso i bawb. Am fwy o fanylion gweler yr erthygl. *Cyswllt: Ray Davies - gweler Cysylltiadau*

**Mehefin 1af - 3ydd** Le Bourget, Paris: Protest yn erbyn Ffair Arfau Eurosatory: Gwylfa heddwch, gwrthdystiad torfol a GUD-D. Byddwch yno! *Manylion: CAAT (0171) 281 0297*

**Mehefin 9fed - 13eg** Tabernacl a strydoedd Caerdydd: Cynefin y Werin / Common Ground: Achosion y Werin, dros Heddwch a Chyfiawnder ar Strydoedd y Ddinas - ymateb i'r EwroUwchgynhadledd. *Cysylltwch â Jill Stallard neu Ben Gregory (01286) 882 359 am fanylion*

**Mehefin 13eg** Capel y Tabernacl, Yr Aes, Caerdydd: Gweithdy'r Blaid Werdd ar hollfydoli, a lansio ymgeiswyr y Blaid Werdd i Etholiadau Ewrop

**Mehefin 15fed** Sul 8.00pm: Gwylnos Werinol dros Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Gorymdaith aml-ffydd gyda cherddoriaeth i Neuadd y Ddinas, anerchiad gan Glenys Kinnock ASE, gwylnos ddistaw wrth olau canhwyllau dros Heddwch ac o blaid Dileu Dyled y Trydydd Byd. Bydd CND Cymru yno. Cysylltwch â Jill am fwy o wybodaeth. *Manylion yr Wylnos: Paul Overend (01222) 232 550*

**Mehefin 15fed - 16eg** Prifysgol Morgannwg: Uwchgynhadledd Amgen y Blaid Werdd. *Cyswllt: Pete Merry (01392) 426234*

**Mehefin 15fed - 16eg** Caerdydd: Uwchgynhadledd Ewrop: 1,500 o swyddogion gwladwriaethol (a 3,500 o newyddiadurwyr) yn cwrdd mewn diogelwch llym.

**Mehefin 16eg** Caerdydd: Gwarchae'r beiciau - gwnawn Gaerdydd yn ardal ddi-gar am ddiwrnod! *Cyswllt: Reclaim Europe, Isabelle (0171) 272 9333*

**Gorffennaf 2il - 5ed** Côr Cochion Caerdydd yn canu ar Garvaghy Road, Gogledd Iwerddon. *Cysylltwch â Beatty Smith (01222) 886113 am fanylion*

**Gorffennaf 3ydd - 11eg** (hefyd Awst 6) Gwersyll Heddwch Gydwladol ym Mhencadlys NATO, Brwsel, Gwlad Felg. *Galwch CND Prydain (0171) 700 2393 am fanylion*

**Awst 1af - 8fed** Eisteddfod Genedlaethol, Penybont-ar-Ogwr. Stondin CND Cymru: *galwch Rod Stallard neu Jan Henderson i gynnig helpu (gweler Cysylltiadau)*

**Awst 6ed** Digwyddiadau Gŵyl Hiroshima yn yr Eisteddfod Genedlaethol (Penybont), Llyn Parc y Rhath (Caerdydd) a mannau eraill yng Nghymru. *Galwch CND Cymru am fanylion*

**Awst 9fed** Sul: Gŵyl Nagasaki. Gweler uchod

**Awst 11eg - 25ain** Faslane, Yr Alban: Sychau Erydr Trident 2000 (gweler erthygl). *Galwch (01603) 611953*

**Awst 15fed** Sadwrn: Faslane, Yr Alban: Diwrnod protest yng ngorsaf llongau tanfor Trident, Gareloch. *Manylion gan CND yr Alban (0141) 423 1222.*

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________

______________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ____

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CAERDYDD

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin SA20 OLR Ffon/facs (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

IS-GADEIRYDDION

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

**Am gwyno am awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel? Ffoniwch y Weinyddiaeth Amddiffyn (0171 218 6020)**

## Cyfraniadau i Heddwch

- Ymddengys y rhifyn nesaf o Heddwch ym mis Gorffennaf 1998
- Ffoniwch Jill i gael y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf
- Danfonwch eich cyfraniadau at Jill Stallard, os gwelwch yn dda (gweler Cysylltiadau am y cyfeiriad); croeso i gyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur neu ebost. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (**01222 395453** ebost **production@capricorn55.u-net.com**) am fanylion.
- Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob cymorth gyda'r gwaith golygu.
- Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Rhif 16